Adnoddau

Cymraeg, Cymraeg ail iaith a Chymraeg i Oedolion

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Hydref 2009

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dyma deunyddiau dosbarth a gomisiynwyd gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r deunyddiau sy'n ymddangos yn y catalog wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar. Nid ydynt ar gael oddi wrth APADGOS ond gellir eu prynu o siopau llyfrau yng Nghymru, yn uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr neu drwy www.gwales.com

Cymraeg

Pitrwm Patrwm

7–14

Cyhoeddwr: Tinopolis

Pecyn o lyfrau darllen lliwgar ar gyfer disgyblion 7–14 oed gydag anawsterau dysgu penodol o ran dyslecsia. Mae'r pecyn yn cynnwys 32 o lyfrau ffuglen a ffeithiol, nodiadau athrawon a CD-ROM â phedair gêm sy'n atgyfnerthu'r patrymau darllen a sillafau a geir yn y llyfrau. Maen nhw'n addas i ddefnyddio gyda disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol.





Pitrwm Patrwm • **£82.00** • 9781847130068

O Gam i Gam

Newydd

7–14

Cyhoeddwr: CAA

Diweddariad o'r rhaglen a gyhoeddwyd yn 1992 ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg i ddisgyblion dyslecsig ac eraill sydd ag anawsterau darllen a sillafu. Mae'r rhaglen yn cynnwys taflenni y gellir eu llungopïo ar gerdyn a'u lamineiddio i gynhyrchu naw set o gardiau fflach. Maen nhw'n addas i ddefnyddio gyda disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol.



O Gam i Gam • **£10.00** • 9781845213169

Bachgen yn y Môr

9–16

Cyhoeddwr: Gwasg Gomer

Addasiad Cymraeg o *Boy Overboard* gan Morris Gleitzman. Mae Jamal yn ddwl am bêl-droed a'i freuddwyd fawr yw cael arwain Awstralia i fuddugoliaeth yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Mae ei deulu yn rhedeg ysgol ddirgel yn Afghanistan a phan ddaw'r llywodraeth i wybod amdani rhaid dianc o'r wlad. A fydd Jamal a'i deulu'n llwyddo i oroesi a chyrraedd Awstralia?



Bachgen yn y Môr • **£4.99** • 9781843238416

Merch o dan Ddaear

Newydd

9–16

Cyhoeddwr: Gwasg Gomer

Addasiad Cymraeg o *Girl Underground*. Stori am gyfeillgarwch a dewrder wrth i Bridget fynd ati gyda'i ffrind newydd i geisio rhyddhau ffoadur o Afghanistan o'r gwersyll creulon. Dilyniant i *Bachgen yn y Môr*.

Merch o dan Ddaear • **£4.99** • 9781843238423

Cyfres yr Onnen

10–13

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Cyfres o nofelau heriol ar gyfer plant 10–13 oed.

Trwy'r Darlun • **£5.95** • 9781847710284

Nofel ffantasi am fachgen sy'n cael ei ddenu i wlad o hud a lledrith. Mae'r stori yn dilyn Cledwyn a Siân drwy'r darlun ac ar hyd twnnel i wlad Crug. Yno maen nhw'n cwrdd â Gili Dŵ caredig – cymeriad rhychiog a moel, byr ond hynod o gryf.

Newydd

Codi Bwganod • **£5.95** • 9781847710741

Stori ysbryd yn dilyn hanes Erin ar ôl iddi hi symud i fyw mewn hen blasty crand sydd yn cael sylw ar raglen deledu 'Dy Dŷ'. Mae'r cyflwynydd, Robyn Rici, a Sara, mam Erin, yn dod yn ffrindiau agos, ond wyddon nhw ddim bod gan Erin ffrindiau hefyd, parot busneslyd o'r enw Sesil a'r ysbryd Madam Petra.

Targedu'r 3

11–14

Cyhoeddwr: CAA

Cyfres o ffeiliau gyda gweithgareddau ar gyfer gwella ac atgyfnerthu sgiliau sylfaenol llythrennedd disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r ffeiliau yn cynnwys taflenni maint A4, du a gwyn, gellir eu llungopïo. Mae'r ffeiliau hefyd yn cynnwys CD-ROM gyda'r taflenni ar ffurf PDF.

Targedu'r 3: Ysgrifennu • **£25.00** • 9781845212766
Targedu'r 3: Darllen • **£25.00** • 9781845212759
Targedu'r 3: Gramadeg • **£25.00** • 9781845213015

Newydd

Sgìl!

11–14

Cyhoeddwr: CAA

Cyfres o lyfrau wedi eu hanelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 sy'n hyrwyddo ac atgyfnerthu sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau llafar, darllen, ysgrifennu a meddwl. Hefyd ceir ffeiliau athro i gyd-fynd â'r llyfrau sy'n cynnwys adnoddau parod gellir eu defnyddio i gefnogi'r hyn a geir yn y llyfr, sef cardiau fflach, taflenni gwirio ac adnoddau ar gyfer creu gêmau iaith. Mae'r adnoddau yn addas ar gyfer anghenion arbennig hefyd.

Sgìl! • **£6.00** • 9781845210205
Sgìl! Ffeil Athro • **£20.00** • 9781845210212
Sgìl! 2 • **£6.00** • 9781845212971
Sgìl! 2 Ffeil Athro • **£20.00** • 9781845212988

Newydd



CRAWC

Newydd

11–14

Cyhoeddwr: Awen

Cylchgrawn misol ar-lein yn cynnwys cyfoeth o ddeunydd i gynorthwyo gwaith y maes llafur Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r cylchgrawn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddarllen amrywiaeth o sbardunau gwahanol gellir eu hargraffu i'w darllen i ffwrdd o'r cyfrifiadur. Mae gan bob sbardun weithgareddau llafar neu ysgrifenedig ynghlwm â nhw.

www.crawc.co.uk
www.gcad-cymru.org.uk – Adnoddau Addysgu > CA3 > Cymraeg

---

eclips: Drws i ddysgu Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3

11–14

Cyhoeddwr: BBC Cymru

DVD a ddosberthir yn rhad ac am ddim i ysgolion sy'n cynnwys nodiadau athrawon a chlipiau sain a ffilm ar gyfer sbarduno gwaith mewn gwersi Cymraeg. Ceir clipiau byrion ar y themâu canlynol:

- arwyr y gorffennol
- atyniadau a lleoedd
- Cymry enwog
- ffurfio cenedl
- llenorion ddoe a heddiw.



Y Jaguar Glas Tywyll

Newydd

11–14

Cyhoeddwr: CAA

Y cyntaf o chwech llyfr ditectif ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3. Ysgrifennwyd y llyfr gan Elgan Philip Davies. Mae'r stori yn dilyn anturiaethau Gethin Evans, 15 oed, sy'n meddwl amdano'i hun fel tipyn o dditectif. Yn ystod y gwyliau haf, caiff Gethin gyfweliad gyda Margam Powell, Gwasanaeth Ymholi Personol, ond prin bod dychymyg byw Gethin hyd yn oed wedi rhagweld yr hyn sy'n digwydd ar ôl ei gyfweliad. Gyda help Caryl, mae Gethin yn rhoi ei sgiliau ditectif ar waith.



Y Jaguar Glas Tywyll • **£6.00** • 9781845213244

Ugain Stori Fer

Newydd

11–16

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Dwy gyfrol yn cynnwys ugain stori fer gan awduron o Gymru a thu hwnt. Mae Cyfrol 1 yn cynnwys straeon gan awduron profiadol fel Mihangel Morgan, Eigra Lewis Roberts, Kate Roberts; awduron poblogaidd eraill fel Manon Rhys, Sonia Edwards a Fflur Dafydd; cyfieithiadau o waith Maupassant a Chekhov; a stori newydd gan Caryl Lewis. Mae Cyfrol 2 yn cynnwys casgliad o straeon sydd wedi'u cyhoeddi eisoes ar y themâu cariad a chasineb, creulondeb ac arswyd, ac unigrwydd gan amrywiaeth eang o awduron profiadol megis Gwyn Thomas, Geraint Vaughan Jones, Eurig Wyn a Meleri Wyn James, ac awduron ifanc fel Mared Llwyd a Gwenno Mair Davies.

Ugain Stori Fer – Cyfrol 1 • **£6.95** • 9781847711229
Ugain Stori Fer – Cyfrol 2 • **£6.95** • 9781847711199

Cyfres Codi'r Llenni

11–16

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Cyfres o gyfrolau yn cynnwys nofelau clasurol a chyfoes wedi eu haddasu'n dramâu. Yn y rhan cyntaf o'r gyfrol ceir addasiad drama o'r nofel ac mae'r ail ran yn delio gyda'r themâu sy'n codi o'r drama. Ceir awgrymiadau ar lwyfannu'r ddrama ynghyd â gweithgareddau dosbarth yn codi o'r sgript. Mae'r gweithgareddau hyn yn addas i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 mewn adrannau drama a Chymraeg.

I Dir Neb – Sgript a Gweithgareddau • **£5.95** • 9780862439569
Mewn Limbo – Sgript a Gweithgareddau • **£5.95** • 9780862439576
Hi yw fy ffrind • **£5.95** • 9780862439590
Martha Jac a Sianco • **£5.95** • 9780862439583

Cyfres y Dderwen

Newydd

12–15

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Cyfres o nofelau heriol ar gyfer disgyblion oedran 12 i 15.



Annwyl Smotyn Bach • **£5.95** • 9781847710277
Nofel wedi'i gosod yn y dyfodol lle mae'r Brawd Mawr yn cadw llygad ar bopeth, yn dilyn ymgais mam feichiog i ddianc ac ymladd yn erbyn y drefn. Enillydd gwobr Tir na n–Og.

Deryn Glân i Ganu • **£5.95** • 9781847711052
Cyfres o ymsonau sydd yma yn dangos ymateb y cymeriadau i'r un digwyddiadau, a'r cyfan yn cyrraedd diweddglo dirdynnol. Mae'n cynnwys themâu cyfoes a pherthnasol i fywyd pobl ifainc.

Cyfres Ar Bigau

12–16

Cyhoeddwr: CAA

Addasiad o lyfrau Barrington Stoke sy'n addas ar gyfer darllenwyr anfoddog. Mae'r pynciau'n amrywiol ac yn eang eu hapêl ar gyfer pobl yn eu harddegau.

Y Cysgod ar y Grisiau • **£4.99** • 9781845212001
Snap Sydyn • **£4.99** • 9781845212100
Duwies y Brain • **£4.99** • 9781845212018
Newyn y Nos • **£4.99** • 9781845211998
Ffrind mewn angen • **£4.99** • 9781845212056
Dim ond Enwau • **£4.99** • 9781845212025
Carcharor yn Alcatraz • **£4.99** • 9781845212063
Zep • **£4.99** • 978184521212032
Tad Cariad • **£4.99** • 9781845212087
Sy'n cael, sy'n cadw • **£4.99** • 9781845212094
Lleuad Siocled • **£4.99** • 9781845212049
Ail Gyfle • **£4.99** • 9781845212070
Rhif Anghywir • **£4.99** • 9781845212490
Dewis Dewis • **£4.99** • 9781845212483
Deri (ddim) yn dair ar ddeg • **£4.99** • 9781845212438
Awen a Pinci • **£4.99** • 9781845212506
Yr Haf â'r Galon Oer • **£4.99** • 9781845212452
Twocio • **£4.99** • 9781845212476
Teulu Twyll • **£4.99** • 9781845212445
Sbectol y Gwirionedd • **£4.99** • 9781845212469





Tyllau

13–16

Cyhoeddwr: Gwasg Gomer

Cyfieithiad o *Holes* gan Louis Sachar. Stori am Stanley Yelnats sy'n cael ei anfon i Wersyll Glaslyn ar ôl iddo fe gael ei gyhuddo ar gam o ddwyn pâr o esgidiau. Mae ymweliad â'r gwersyll rhyfedd hwn yn atgyfnerthu cymeriad Stanley ac yn newid ei fywyd am byth.

Tyllau • **£6.99** • 9781843238409



Cyfres y Goleudy

14–16

Cyhoeddwr: CAA

Llyfrau ar gyfer disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg sy'n cynnwys sbardunau ffeithiol a ffuglen ynghyd â gweithgareddau ac ymarferion sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r llyfrau hefyd yn cynnwys enghreifftiau pwrpasol o waith ysgrifenedig disgyblion TGAU.

Natur • **£4.99** • 9781845212629
Cymru a Chymreictod • **£4.99** • 9781845212636
Pigo Cydwybod • **£4.99** • 9781845213183

Newydd





Nodiadau Safon Uwch ar-lein

Newydd

16+

Cyhoeddwr: Atebol

Pecyn o nodiadau ar-lein i gynorthwyo athrawon a chaniatáu i ddisgyblion gael gwybodaeth a chyfarwyddiadau a fydd yn eu cynorthwyo i astudio testunau gosod Safon Uwch.

Mae'r pecynnau yn ymdrin â:

- *Y Mabinogi* – nodiadau gan Yr Athro Gwyn Thomas; rhoddir sylw i ddwy chwedl sef Branwen ferch Llŷr, a Culhwch ac Olwen
- nodiadau manwl ar yr awdl XXIV o'r Gododdin gan Yr Athro Gwyn Thomas
- *Martha Jac a Sianco* – nodiadau gan Bleddyn Owen Huws; rhoddir sylw manwl i'r plot, y cymeriadau, rhai themâu, cynllun y nofel, ac arddull a chrefft y nofelydd
- *Dan Gadarn Goncrit* – nodiadau gan Nerys Llywelyn Davies ac Eirlys Roberts; rhoddir sylw manwl i'r pedwar prif blot, y cymeriadau, rhai themâu, cefndir y nofel, ac arddull ac iaith y nofelydd.

www.gcad-cymru.org.uk – Adnoddau Addysgu > U/UG > Cymraeg

Mae Atebol wedi cyhoeddi y nodiadau ar gyfer *Martha Jac a Sianco* ac *Y Mabinogi* mewn ffurf llyfr.

Cymraeg Safon Uwch, Help Llaw: Martha Jac a Sianco
£5.99 • 9781907004124
Cymraeg Safon Uwch, Help Llaw: Y Mabinogi
£5.99 • 9781907004186



Cymraeg ail iaith

Cyfres Brechdan Inc

11–14





Cyhoeddwr: Gwasg Gomer

Cyfres o lyfrau darllen ffuglen a ffeithiol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3. Mae pob llyfr yn cynnwys geirfa.

Golwg ar Japan • **£3.50** • 9781843236115
Dyw Zoe ddim yn sylwi arna i • **£3.50** • 9781843236207
Sbaen • **£3.50** • 9781843236184
Dolffiniaid Diddorol • **£3.50** • 9781843236092
Eirfyrddio • **£3.50** • 9781843236177
Sebon • **£3.50** • 9781843236115
Caerdydd • **£3.50** • 9781843236191
Clybio • **£3.50** • 9781843236061
Sosej a sglodion • **£3.50** • 9781843236153
Deinosoriaid Difyr • **£3.50** • 9781843236245
Tegi • **£3.50** • 9781843236146

Taith Iaith Eto

11–16







Cyhoeddwr: CAA

Deunyddiau aml-gyfrwng ar gyfer addysgu disgyblion Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, yn cynnwys llyfr cwrs yn cyflwyno eitemau gramadeg, geirfa a ffeithiau diddorol; llyfr i'w ddefnyddio gyda llyfr gweithgareddau; CD o weithgareddau gwrando; a gwefan *Taith Iaith*.

Taith Iaith Eto 1: Llyfr Cwrs • **£4.99** • 9781845212285
Taith Iaith Eto 1: Llyfr Gweithgareddau • **£3.99** • 9781845212292
Taith Iaith Eto 1: CD • **£5.74** • 9781845212308
Taith Iaith Eto 2: Llyfr Cwrs • **£4.99** • 9781845212315
Taith Iaith Eto 2: Llyfr Gweithgareddau • **£3.99** • 9781845212322
Taith Iaith Eto 2: CD • **£5.74** • 9781845212339
Taith Iaith Eto 3: Llyfr Cwrs • **£4.99** • 9781845212643
Taith Iaith Eto 3: Llyfr Gweithgareddau • **£3.99** • 9781845212650
Taith Iaith Eto 3: CD • **£5.74** • 9781845212667
Taith Iaith Eto 4: Llyfr Cwrs • **£4.99** • 9781845212674
Taith Iaith Eto 4: Llyfr Gweithgareddau • **£3.99** • 9781845212711
Taith Iaith Eto 4: CD • **£5.74** • 9781845212698
Taith Iaith Eto 5: Llyfr Cwrs • **£4.99** • 9781845212704
Taith Iaith Eto 5: Llyfr Gweithgareddau • **£3.99** • 9781845212711
Taith Iaith Eto 5: CD • **£5.74** • 9781845212728

Cyfres Tonic

14–16

Cyhoeddwr: CAA

Cyfres o lyfrau darllen ar gyfer dysgwyr i gyd-fynd â chyfres *Taith Iaith*.





Llyfrau i gyd-fynd â *Taith Iaith 4*:

Edrych yn Dda • **£2.50** • 9781845211820
Coch fel y rhosyn, Coch fel y gwaed • **£2.50** • 9781845211769
Cip ar fywyd … • **£2.50** • 9781845211776
Blwyddyn Newydd Dda • **£2.50** • 9781845211783
Swyn y Sêr • **£2.50** • 9781845211752
Hwnt ac Yma • **£2.50** • 9781845211813
Sgam • **£2.50** • 9781845211790
Y Ffair a Sbwriel • **£2.50** • 9781845211806

Llyfrau i gyd-fynd â *Taith Iaith 5*:

Y Sifft Nos • **£2.50** • 9781845211912
Gwir pob Gair • **£2.50** • 9781845211943
O'r Newydd • **£2.50** • 9781845211967
O'r Galon • **£2.50** • 9781845211974
Lladrad • **£2.50** • 9781845211929
Dial • **£2.50** • 9781845211936
Bethan am Byth • **£2.50** • 9781845211905
999 • **£2.50** • 9781845211950

Llyfrau i gyd-fynd â *Taith Iaith Eto*:

Mr Petras • **£2.50** • 9781845212520
I Mongolia Mewn Fan Hufen Iâ • **£2.50** • 9781845212544
Y Gêm a Cangarŵod • **£2.50** • 9781845212513
Beth? Dim Pants? • **£2.50** • 9781845212537

Golwg ar ...

16+

Cyhoeddwr: CAA

Llyfrau ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith. Mae'r llyfrau yn helpu meithrin y sgiliau sydd angen ar gyfer gwahanol agweddau o'r cwrs. Mae'r llyfrau yn cynnwys ymarferion ac atebion, help ymarferol, a syniadau am ble i gael mwy o wybodaeth.

Golwg ar farddoniaeth • **£4.00** • 9781845211646
Llyfr ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch i'w helpu i werthfawrogi barddoniaeth.
Golwg ar Iaith • **£6.00** • 9781845211639
Llyfr gramadeg yn cynnwys ymarferion ac atebion, help ymarferol a syniadau am ble i gael mwy o wybodaeth.
Golwg ar y Stori Fer • **£4.00** • 9781845212612
Llyfr i helpu myfyrwyr i ddadansoddi a gwerthfawrogi'r stori fer.
Golwg ar ddrama, gyda sylw penodol i *Siwan* • **£4.00** • 9781845212605
Llyfr ar ddrama. Rhoddir sylw penodol i'r ddrama osod *Siwan*, ond cyfeirir hefyd at ddramâu eraill.

Golwg ar drawsieithu • **£5.00** • 9781845213176 **Newydd**
Llyfryn i helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau trawsieithu. Mae'n cynnwys geirfa ddefnyddiol, ymarferion, canllawiau ar sut i gyflwyno ac i ymateb i ddadl neu bwnc, a hefyd atebion posib.

Cip ar Glip

Newydd

16+

Casgliad o glipiau o raglenni teledu Cymraeg wedi eu dethol ar gyfer dysgwyr Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol wedi eu cyflwyno ar un DVD. Dewiswyd y clipiau i annog trafodaeth ymysg dysgwyr ac maen nhw'n ymdrin ag ystod eang o bynciau. Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys nodiadau a gweithgareddau gan Non ap Emlyn, yn ogystal â thrawsgrifiadau ar gyfer pob un o'r 24 clip. Dosbarthwyd yn rhad ac am ddim i ysgolion uwchradd yn ystod haf 2009. Gellir hefyd lawrlwytho'r dogfennau ysgrifenedig o GCaD Cymru.

Cymraeg i Oedolion

Cardiau Fflach

Cyhoeddwr: CBAC

Cardiau Bach CBAC 1 • **£10.00** • 9781860856518

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Pecyn yn cynnwys 100 o gardiau fflach bach i'w defnyddio mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae'r pecyn yn cynnwys cardiau ar y themâu canlynol:

- enwau lleoedd
- mathau o dywydd
- gweithgareddau cyffredin
- diddordebau/chwaraeon
- swyddi
- teuluoedd
- y cartref
- gwrthrychau amrywiol.

Cardiau Bach CBAC 2 • **£10.00** • 9781860856525

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Pecyn yn cynnwys 100 o gardiau fflach bach i'w defnyddio mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae'r pecyn yn cynnwys cardiau ar y themâu canlynol:

- sefyllfaoedd i sbarduno sgwrs
- cefndir diwylliannol Cymru
- mathau o salwch
- mathau o adeiladau
- lluniau'n ymwneud a gwyliau
- bwydydd a diodydd.

Cardiau Fflach CBAC 1 • **£15.00** • 9781860855399
Cardiau Fflach CBAC 2 • **£15.00** • 9781860856372

Pecynnau yn cynnwys y cardiau fflach ar ffurf maint A4. Mae'r pecynnau hefyd yn cynnwys canllawiau i diwtoriaid (gyda gweithgareddau addas ar gyfer Lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd), yn ogystal â CD-ROM o'r delweddau ar y cardiau fflach.

yTiwtor.org

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Cylchgrawn ar-lein i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy'n cynnwys banc o adnoddau dysgu i'w lawrlwytho, newyddion o'r maes a'r wybodaeth arholi diweddaraf.

www.ytiwtor.org

Perthyn

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS



Cyhoeddwr: Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Adnoddau ar-lein am ddim. Pecyn adnoddau yn seiliedig ar arddangosfa Oriel 1 yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Mae'r arddangosfa yn defnyddio gwrthrychau, ffotograffau, ffilm, celf a straeon personol er mwyn archwilio i'r hunaniaeth Gymraeg. Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu ar gyfer dysgwyr Lefelau Mynediad i Uwch, ac yn cynnwys rhagarweiniad i diwtoriaid, gweithgareddau amrywiol a chardiau fflach. Ceir hefyd cyfweliadau fideo gyda 18 o ddysgwyr yn egluro eu rhesymau dros ddysgu Cymraeg. Dosbarthwyd yn rhad ac am ddim drwy'r canolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae'r pecyn ar gael drwy ymweld â'r wefan. Cynghorir tiwtoriaid i gysylltu ag Adran Addysg yr Amgueddfa (029 2057 3403/3424) wrth drefnu ymweliadau.

www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/perthyn

Gwau Geiriau

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Cyhoeddwr: Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Adnoddau ar-lein am ddim. Pecyn adnoddau i'w ddefnyddio gyda dysgwyr Lefelau Mynediad i Uwch yn seiliedig ar Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre. Mae'r pecyn yn gwneud defnydd o hanes Dre-fach Felindre a'r ardal fel man cychwyn ar gyfer ystod eang o weithgareddau ysgrifenedig a llafar i ddatblygu a mireinio gloywi iaith dysgwyr. Mae'n cynnwys arweiniad cynhwysfawr i diwtoriaid. Dosbarthwyd yn rhad ac am ddim drwy'r canolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae'r pecyn ar gael yn rhad ac am ddim drwy ymweld â'r wefan. Cynghorir tiwtoriaid i gysylltu â'r amgueddfa (01559 370929) wrth drefnu ymweliadau.

www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/gwaugeiriau

Gwylio'n Graff

Newydd

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Cyhoeddwr: Eclipse Creative

Adnoddau ar-lein am ddim. Casgliad o glipiau o raglenni teledu Cymraeg wedi eu dethol ar gyfer dysgwyr ar Lefelau Uwch a Hyfedredd wedi eu cyflwyno ar un DVD. Dewiswyd y clipiau i annog trafodaeth ymysg dysgwyr ac maen nhw'n ymdrin ag ystod eang o bynciau. Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys nodiadau a gweithgareddau gan Non ap Emlyn, yn ogystal â thrawsgrifiadau, ar gyfer pob un o'r 24 clip. Dosbarthwyd yn rhad ac am ddim drwy'r canolfannau Cymraeg i Oedolion. Gellir hefyd lawrlwytho'r dogfennau ysgrifenedig o wefan Cymraeg i Oedolion.

www.cymru.gov.uk/cymraegioedolion – Adnoddau addysgu > Adnoddau ar gael o'r canolfannau Cymraeg i Oedolion

---

Gwefan Cymraeg i Oedolion

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Mae'r wefan yn cynnwys mwy o wybodaeth gyfredol a rhestr lawn o'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr a thiwtoriaid.

www.cymru.gov.uk/cymraegioedolion

Manylion y cyhoeddwyr

Cofiwch gadw at y gyfraith trwy beidio byth â thorri rheolau hawlfraint. Os oes gennych syniadau dysgu sy'n ddibynnol ar unrhyw gyhoeddiad, cysylltwch â'r cyhoeddwyr i drafod cyn paratoi unrhyw ddeunydd. Mae'n dor-cyfraith i sganio deunydd o lyfr, er enghraifft, i'w ddangos ar fwrdd gwyn.

Atebol Adeiladau'r Fagwyr, Llandre, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ
Ffôn: 01970 832172

Awen Canolfan y Cyfryngau, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ
Ffôn: 0870 777 2380

BBC Cymru Adran Addysg a Dysgu, Ystafell E3106, BBC Cymru, Caerdydd CF5 2YQ
Ffôn: 029 2032 2833

Canolfan Astudiaethau Addysg (CAA) Yr Hen Goleg, Aberystwyth SY23 2AX
Ffôn: 01970 622128

CBAC 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5007

Gwasg Gomer Llandysul, Ceredigion SA44 4QL
Ffôn: 01559 362371

Tinopolis Stryd y Parc, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 3YE
Ffôn: 01554 880880

Y Lolfa Talybont, Ceredigion SY24 5AP
Ffôn: 01970 832304

GCaD Cymru
Mae Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD Cymru) yn brosiect sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cael ei reoli gan CBAC. Mae'r adnoddau digidol sydd yn cael eu dosbarthu gan GCaD Cymru ar gael dros y rhyngrwyd yn rhad ac am ddim i bob ysgol.
www.gcad–cymru.org.uk